# Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

## EUR(3)-04-09 : Papur 1 : 10 Mawrth 2009

**Dyddiad : 10 Mawrth 2009**
**Amser : 09.05 – 10.50**
**Lleoliad : Ystafell Bwyllgora 1**

## Adroddiad y Gweinidog

### Diben

Cyflwynir yr adroddiad hwn mewn ymateb i wahoddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf gyffredinol am ddatblygiadau'r UE a gweithgareddau rhyngwladol eraill.

### Argymhelliad

1. Bod yr aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.

### Cefndir

2. Anerchais y Pwyllgor ddiwethaf ar 20 Ionawr 2009 pryd y rhoddais y newyddion diweddaraf ar flaenoriaethau Ewropeaidd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2009, a'r Cynllun Adfer Economaidd Ewropeaidd. Diben y papur hwn yw rhoi newyddion diweddaraf mwy cyffredinol ar ddatblygiadau'r UE a'm cyfraniad at weithgareddau rhyngwladol eraill.

### Gweithgareddau Rhyngwladol Prif Weinidog Cymru

- **21 Tachwedd 2008 - Ymweliad Ei Ardderchogrwydd Derek Leask, Uchel Gomisiynydd Seland Newydd i'r DU**

  Trafododd Derek Leask a minnau nifer o feysydd lle gallem gydweithio o bosibl gan gynnwys:
  - Ymchwil glaswelltir a chnydau biomas - yn enwedig cynhyrchu cig coch, sgil-gynhyrchion methan a lleihau nwyon tŷ gwydr
  - Adolygu gwasanaethau cyhoeddus – mae Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru yn cydweithio â Seland Newydd ar hyn o bryd ar feysydd arfer gorau
  - Twristiaeth gweithgareddau/campau eithafol.
  - Mae Seland Newydd yn sefydlu canolfan gwersylloedd hyfforddi ar gyfer Tîm Gemau Olympaidd 2012 Seland Newydd.

- **24 Tachwedd 2008 - Ymweliad Ei Ardderchogrwydd Shiv Shankar Mukherjee, Uchel Gomisiynydd India i'r DU**

Hwn oedd ymweliad cyntaf Mr Mukherjee â Chymru. Buom yn trafod yr argyfwng economaidd byd-eang a'i effaith ar economi Cymru yn ogystal ag ynni, masnach, buddsoddiad a thaith fasnach Busnes Rhyngwladol Cymru yn y dyfodol agos a Chwmni Dur Corus/Tata. Ymwelodd yr Uchel Gomisiynydd â safle Strip Products ym Mhort Talbot.

- **25 Tachwedd 2008 - Pierre Boulanger, Prif Gynrychiolydd, Dirprwyaeth Québec (yn Llundain)**

  Roedd y Prif Gynrychiolydd a'i Gynghorwr Materion Cyhoeddus yn ymweld â Chymru am y tro cyntaf. Roedd ein trafodaethau yn ymwneud â dwyieithrwydd yn bennaf yn enwedig ym maes addysg uwch lle awgrymwyd y gall fod yna gyfle i ddysgu gan y naill a'r llall.

  Cytunodd y Prif Gynrychiolydd i annog y Prif Weinidog sydd newydd gael ei ail-ethol i ymweld â Chymru.

- **26 Tachwedd 2008 – 02 Rhagfyr 2008 – Arddangosfa o Ffotograffau o Latfia**

  Bûm mewn derbyniad yn y Senedd i nodi agoriad Arddangosfa Ffotograffig i ddathlu 90 mlynedd ers i Latfia gael statws annibynnol. Cynhaliwyd y derbyniad gan Ei Ardderchogrwydd Indulis Bērziņš, Llysgennad Latfia i'r DU.

- **1 Rhagfyr 2008 - Cinio canol dydd gydag Ei Hardderchogrwydd Madam Fu Yinh, Llysgenhades Tsieina i'r DU, yn Llysgenhadaeth Tsieina**

  Cyfarfûm â'r Llysgenhades i drafod nifer o faterion yn ymwneud â pherthynas Cymru â Tsieina. Roedd y rhain yn cynnwys yr hinsawdd economaidd fyd-eang a'r goblygiadau o safbwynt cyfleoedd masnach/buddsoddi; y posibilrwydd y gallai'r Llysgenhadaeth sefydlu Swyddfa Is-gennad yng Nghymru; y posibilrwydd y gallai timau Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 Tsiena aros yng Nghymru, a datblygu cysylltiadau rhwng Cymru a Bwrdeistref Chongqing.

- **2 Rhagfyr 2008 – Cyfarfod â swyddogion iechyd o Chongqing**

  Cyfarfod cwrteisi oedd hwn fel rhan o raglen ddeuddydd a oedd yn rhoi cyfle i'r swyddogion ddysgu am Wasanaeth Iechyd Gwladol Cymru ac yn arbennig ynglŷn â darparu gofal sylfaenol.

- **21 Ionawr 2009 – Derbyniad Blwyddyn Newydd yn y Comisiwn Ewropeaidd i nodi Llywyddiaeth y Weriniaeth Tsiec o'r UE**

  Cynhaliwyd derbyniad Blwyddyn Newydd ar y cyd gan y Llywyddiaeth a'r Comisiwn ar 21 Ionawr dan ofal Llysgennad y Weriniaeth Tsiec i'r Deyrnas

Unedig, y diweddar Ei Ardderchogrwydd Mr Jan Winkler, a Phennaeth Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghaerdydd, Mr Andy Klom, i nodi achlysur Llywyddiaeth y Weriniaeth Tsiec o'r UE am chwe mis cyntaf 2009. Agorodd Andy Klom y digwyddiad a bu'r Llysgennad yn sôn am flaenoriaethau Llywyddiaeth y Weriniaeth Tsiec. Gwneuthum innau ymateb gan sôn am y Weriniaeth Tsiec, amcanion yr UE a'r Llywyddiaeth a gwaith Llywodraeth y Cynulliad.

- **22 Ionawr 2009 – Ei Ardderchogrwydd Khaled Rashid Al-Hamoudi Al Mansouri, Llysgennad Gwladwriaeth Qatar i'r DU**

  Er mai hwn oedd ymweliad swyddogol cyntaf y Llysgennad Al-Mansouri, mae wedi ymweld yn anffurfiol â Chymru ar sawl achlysur. Mae'r Llysgennad am adeiladu ar y cysylltiadau a ddatblygwyd rhwng Cymru a Qatar yn sgil Terfynell Nwy Naturiol Hylifedig South Hook a fydd yn agor yn swyddogol ym mis Mai. Mae'r Llysgennad hefyd yn awyddus i ddatblygu cysylltiadau diwylliannol gyda Chymru ac mae fy swyddogion yn edrych ar bosibiliadau. Bûm yn trafod cyfleoedd i fuddsoddi yng Nghymru ar gyfer sectorau nad ydynt yn ymwneud ag olew a nwy, megis addysg, y cyfryngau a masnach- gan gynnwys y daith fasnach sydd wedi'i chynllunio ar gyfer mis Medi 2009.

- **28 Ionawr 2009 – Corfflu Is-genadiaethol Cymru**

  Cyfarfûm â Chonsyliaid Anrhydeddus a chynrychiolwyr swyddogol sydd yng Nghymru i amlygu manteision defnyddio Cymru fel gwersyll hyfforddi ar gyfer Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain 2012 a'u hannog i hyrwyddo cyfleusterau rhagorol Cymru i'w Pwyllgorau Olympaidd Rhyngwladol a'u hannog i ymweld â Chymru i weld ansawdd y cyfleusterau hyfforddi sydd ar gael. Bu modd i mi ddweud wrthynt fod Tîm Paralympaidd Awstralia eisoes wedi ymrwymo i ddod i Gymru a bod Pwyllgor Olympaidd Slofacia yn dod ar ymweliad ym mis Mawrth. Roeddwn yn falch bod y nofwraig Liz Johnson, a enillodd fedal aur yng Ngemau Paralympaidd 2008, wedi gallu dod i'r derbyniad a rhoi safbwynt yr athletwyr.

- **28 – 29 Ionawr 2009 Ymweliad gan Ddirprwyaeth o Gatalonia i'r DU**

  Cyfarfûm â Sr Xavier Solano I Bello a gafodd ei benodi'n Bennaeth y Ddirprwyaeth o Gatalonia i'r DU yn ddiweddar (cynrychiolydd swyddogol y Generalitat de Catalunya yn y DU) a'i Ddirprwy. Amlygodd Sr Solano'r cymorth y gall ei swyddfa ei ddarparu er mwyn datblygu'r cysylltiad â Chatalonia. Yn ystod ein cyfarfod gwnaethom drafod nifer o faterion gan gynnwys y defnydd a wneir o'r Gymraeg a Chatalaneg.

  Cyfarfu Sr Solano â nifer o swyddogion i drafod gwahanol agweddau ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth Cymru/Catalonia. Cyfarfu hefyd â'r Gweinidog dros Gyllid a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, Bwrdd yr Iaith a Phrifysgol Abertawe.

- **3 Chwefror 2009 – Cyfarfod gydag Ibrahim Peghouma, Cyfarwyddwr Rhaglenni Gwlad Camerŵn ar gyfer Gwasanaethau Gwirfoddol Dramor, Barbara Natasegara, Prif Weithredwr, Cymru Ddiogelach**

  Cyfarfûm ag Ibrahim Peghouma a Barbara Natasegara i drafod effaith lleoliadau 8 wythnos Cynllun Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol Cymru o Blaid Affrica ar Wirfoddolwyr Cymru a gymerodd rhan a'r llywodraethau lleol yng Nghamerŵn.

- **3 Chwefror 2009 - Ymweliad Ei Ardderchogrwydd Jan Winkler, Llysgennad y Weriniaeth Tsiec yn y DU**

  Roedd Llysgennad Winkler yng Nghaerdydd i annerch y Pwyllgor hwn gan mai'r Weriniaeth Tsiec yw deilydd presennol Llywyddiaeth yr UE. Yn ystod ein cyfarfod preifat buom yn trafod blaenoriaethau'r Weriniaeth Tsiec ar gyfer yr UE ac effeithiau'r dirywiad ariannol ar y diwydiant cerbydau yng Nghymru a'r Weriniaeth Tsiec.

  Roeddwn yn hynod flin i glywed bod y Llysgennad wedi marw'n sydyn ar 16 Chwefror. Rwyf wedi ysgrifennu at ei deulu i fynegi fy nghydymdeimlad i a'r Llywodraeth.

- **13 Chwefror 2009 – Cyfarfod gydag Ei Ardderchogrwydd Ion Jinga, Llysgennad Rwmania**

  Roedd y Llysgennad Jinga ar ei ymweliad cyntaf â Chymru ers ei benodiad ym mis Mawrth 2008. Trafodwyd amrywiaeth o eitemau yn ymwneud â'r UE

- **19-20 Chwefror 2009 – Y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig**

  Mynychodd Dirprwy Brif Weinidog Cymru a minnau'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig a gynhaliwyd yn Stadiwm SWALEC, Caerdydd. Diben Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig oedd trafod yr economi, cynhwysiant cymdeithasol ac, yn benodol, swyddogaeth y Trydydd Sector o ran adfer yr economi. Hefyd, gwnaethom ystyried adolygiad o Raglen Waith y Cyngor Prydeinig-Gwyddedig gan gynnwys tai, cynhwysiant digidol a chynllunio gofodol ar y cyd ac edrych ar waith parhaus y Cyngor, gan gynnwys mater ieithoedd lleiafrifol.

- **27 Chwefror 2009 – Digwyddiad Dydd Gŵyl Dewi ym mhreswylfa Llysgennad Prydain ym Mharis**

  Bu Dirprwy Brif Weinidog Cymru a minnau mewn digwyddiad a gynhaliwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru/Undeb Rygbi Cymru/Llysgenhadaeth Prydain yn y Breswylfa a mynd wedyn i'r gêm rygbi rhwng Ffrainc a Chymru yn y Stade de France. Roedd hwn yn gyfle heb ei ail i wahodd mewnfuddsoddwyr i'r Breswylfa i gymdeithasu â rhanddeiliaid allweddol o Gymru.

- **9 Mawrth 2009 – Y Corfflu Diplomyddol**

  Byddaf yn cynnal y derbyniad Dydd Gŵyl Dewi blynyddol yn Nhŷ'r Cyffredin. Thema'r digwyddiad eleni yw Cymru 2012, i annog gwelydd wedi'u targedu i ddefnyddio Cymru fel gwersyll hyfforddi ar gyfer y gemau Olympaidd.

## Datblygiadau'r UE

## Cytuniad Lisbon

Yn y Cyngor Ewropeaidd ym mis Rhagfyr 2008 cafwyd ymrwymiad gan Lywodraeth Iwerddon, yn dibynnu ar rai amodau, i geisio cadarnhau Cytuniad Lisbon erbyn diwedd tymor y Comisiwn presennol.

Yn ôl rheolau'r UE, daw'r Cytuniad newydd i rym ar ddiwrnod cyntaf y mis ar ôl i'r wladwriaeth olaf sy'n rhan o'r Cytuniad adneuo offeryn cadarnhau.

Pe byddai'r Gwyddelod yn cadarnhau'r Cytuniad erbyn diwedd mis Hydref 2009 nid yw'n debygol y daw i rym cyn 1 Rhagfyr 2009. Nid yw'r Weriniaeth Tsiec wedi cadarnhau'r Cytuniad hyd yma ac mae Vaclav Klaus, y Llywydd wedi dweud na fydd yn ei lofnodi, hyd yn oed os bydd Llywodraeth Tsiec yn ei gymeradwyo, hyd nes bydd y Gwyddelod wedi'i gymeradwyo. Mae Lech Kaczynski, Llywydd Gwlad Pwyl wedi gwneud datganiadau tebyg. Os bydd Iwerddon yn cadarnhau'r Cytuniad yn dilyn ail bleidlais debygol, gallai gymryd rhai wythnosau pellach i'r Weriniaeth Tsiec a Gwlad Pwyl gwblhau'r broses.

## Strategaeth Lisbon

Cyfrannodd Llywodraeth y Cynulliad yn llawn at Raglen Ddiwygio Genedlaethol y DU 2008, y ddogfen flynyddol sy'n rhoi manylion y polisïau yn y DU sy'n cefnogi Strategaeth Lisbon yr UE ar gyfer twf a swyddi a gyhoeddwyd ac a gyflwynwyd i'r Comisiwn ym mis Medi. O ganlyniad i ni gymryd rhan yn y broses cafodd amrywiaeth sylweddol o gyfraniadau eu cynnwys yn y ddogfen. Roedd y rhain yn cwmpasu meysydd yn cynnwys: sgiliau a hyfforddiant; cyflogaeth; ymchwil a datblygu; arloesedd ac entrepreneuriaeth; cymorth busnes; gofal plant; cyflenwad tai; newid yn yr hinsawdd; ynni; a datblygu cynaliadwy.

Wedyn, cynhyrchodd y Comisiwn asesiad manwl o'r Rhaglenni Diwygio Cenedlaethol a gyflwynwyd gan bob Aelod-wladwriaeth ac ym mis Ionawr cyhoeddodd y Cyngor Ewropeaidd ei ymateb, gan gynnwys argymhellion i bob gwlad. Yr Argymhellion Penodol ar gyfer y DU oedd y dylai fynd ati i weithredu diwygiadau strwythurol ac y dylai a) sicrhau sefyllfa gyllidol gynaliadwy yn y tymor canolig, yn cynnwys defnyddio mesurau cyfuno cyllidol wedi'u llunio i wella ansawdd cyllid cyhoeddus a b) parhau i weithredu cynlluniau i wella lefelau sgiliau yn sylweddol a sefydlu dull gweithredu integredig ar gyfer cyflogaeth a sgiliau er mwyn codi lefel cynhyrchiant a chreu mwy o gyfleoedd i'r rhai difreintiedig. Cydnabu'r Comisiwn yn ffurfiol

gyfraniad y Gweinyddiaethau Datganoledig at baratoi'r Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol o ran eu cyfrifoldebau polisi eu hunain.

Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau'n ymroddedig i Strategaeth Lisbon a bydd fy swyddogion yn parhau i gymryd rhan ym mhroses y Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol. Disgwylir y bydd yr UE, a'i Haelod-wladwriaethau, yn dechrau ystyried dyfodol Strategaeth Lisbon y tu hwnt i 2010 yn y dyfodol agos a bydd fy swyddogion yn cymryd rhan lawn yn y broses honno.

## Llywyddiaeth y Weriniaeth Tsiec o Gyngor yr Undeb Ewropeaidd

Derbyniodd y Weriniaeth Tsiec Lywyddiaeth yr UE ar 1 Ionawr 2009 (gan olynu Ffrainc). Mae Llywyddiaeth y Weriniaeth Tsiec o'r UE wedi seilio ei Rhaglen Waith ar barhau â pholisïau'r UE a chydweithio gyda Ffrainc a Sweden (a fydd yn derbyn Llywyddiaeth yr UE ar 1 Gorffennaf), fel y mynegwyd yn rhaglen waith 18 mis y tair gwlad, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2008.

Thema gyffredinol Llywyddiaeth y Weriniaeth Tsiec yw "Ewrop heb Rwystrau" - economaidd a ffisegol. Mae hyn yn adlewyrchu'r pedwar rhyddid sylfaenol: symudiad rhydd nwyddau, cyfalaf, gweithwyr a gwasanaethau. O dan y pennawd cyffredinol mae tair blaenoriaeth eang, a adwaenir fel y tair E yn Saesneg:

Economi – Ewrop Gystadleuol
Ynni – Cyflenwad Ynni a Newid yn yr Hinsawdd
Yr Undeb Ewropeaidd yn y Byd.

Mae'r cyntaf o'r rhain yn cynnwys Rheoleiddio Gwell ac yn canolbwyntio ar fesurau i wella'r amgylchedd busnes a rhoi hwb i berfformiad economaidd yr UE. Mae'r ail flaenoriaeth yn canolbwyntio mwy ar Ynni na Newid yn yr Hinsawdd. Mae gan bobl y Weriniaeth Tsiec ddiddordeb mawr mewn edrych ar faterion sy'n ymwneud ag arallgyfeirio a diogelwch cyflenwad. Yn olaf, mae'r Undeb Ewropeaidd yn y Byd yn canolbwyntio'n gryf ar ehangu ac ar Orllewin y Balcanau a hefyd ar berthynas yr UE gyda Rwsia ac UDA.

### Cyfarfod Anffurfiol Penaethiaid Gwladwriaethau a Llywodraethau

Cynhelir cyfarfod anffurfiol o'r UE ym Mrwsel ar 1 Mawrth. Bydd y cyfarfod yn mynd i'r afael â'r camau a gymerwyd gan yr Aelod-wladwriaethau unigol i weithredu'r Cynllun Adfer ac i amddiffyn eu hunain rhag yr argyfwng ariannol. Mae'n bosibl y bydd hefyd yn trafod sefyllfa'r UE ar gyfer cyfarfod y G20 ym mis Ebrill. Mewn datganiad byr cytunodd Prif Weinidog y Weriniaeth Tsiec a Llywydd y Comisiwn ei bod yn gwbl angenrheidiol glynu at reolau'r farchnad fewnol a chystadleuaeth deg ar adeg o bwysau cynyddol i fabwysiadu mesurau diffynnaeth.

## Cyngor Ewropeaidd y Gwanwyn

Bwriedir cynnal y Cyngor Ewropeaidd ar 19 a 20 Mawrth. Byddaf yn bresennol yn y Cyd-bwyllgor Gweinidogol (Ewrop) ar 9 Mawrth a'r brif eitem i'w thrafod fydd y rhagolygon ar gyfer y Cyngor. Byddaf yn darparu adroddiad llafar i'r Pwyllgor.

## Papur Gwyrdd ac Ymgynghoriad y Comisiwn Ewropeaidd ar Gydlyniad Tiriogaethol

Cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd Bapur Gwyrdd ar 06 Hydref 2008 yn lansio ymgynghoriad ar y cysyniad o Gydlyniad Tiriogaethol a fydd ar agor tan 28 Chwefror 2009. Yn unol â'n dull o ymgysylltu'n rhagweithiol â'r gwaith o ddatblygu polisïau trawsbynciol yr UE, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyflwyno ei hymateb ei hun, yn y Gymraeg a'r Saesneg, i'r ymgynghoriad a dylai hwn fod ar gael ar wefan y Comisiwn.

Ers peth amser bellach, cefnogwyd ychwanegu Cydlyniad Tiriogaethol at gydlyniad economaidd a chymdeithasol fel un o amcanion yr UE. Mae wedi'i gynnwys yn nhestun Cytuniad Lisbon. Mae ymateb Llywodraeth y Cynulliad yn cynnig diffiniad o Gydlyniad Tiriogaethol fel darparu mynediad cyfartal i gyfleoedd ar gyfer datblygu cynaliadwy ac i wasanaethau, heb ystyried ffiniau gweinyddol, fel bo tiriogaeth, gan gynnwys y tir a'i phobl, yn gallu cyflawni ei photensial. Mae'r ymateb yn amlinellu'r materion allweddol i Lywodraeth y Cynulliad, gan adeiladu ar egwyddorion Cymru'n Un a'r cyfeiriad polisi sydd wedi'i bennu.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyfrannu hefyd at ymateb Llywodraeth y DU i'r ymgynghoriad. Mae fy swyddogion wedi cymryd rhan lawn yn y trafodaethau yn Whitehall ac wedi darparu enghreifftiau o bolisïau sy'n cael eu datblygu a'u gweithredu yng Nghymru.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, mae'r Comisiwn yn debygol o lunio Papur Gwyn yn nes ymlaen yn y flwyddyn. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i ymgysylltu'n llawn â'r gwaith o ddatblygu polisi'r UE ar Gydlyniad Tiriogaethol.

## Adroddiad ar Gynnydd o dan y Mecanwaith Cydweithredu a Dilysu yn Rwmania a Bwlgaria

Pan ddaeth Rwmania a Bwlgaria yn aelodau o'r UE ar 1 Ionawr 2007, roedd rhai gwendidau yn parhau ym meysydd diwygio barnwrol a'r frwydr yn erbyn llygredd a allai atal cyfreithiau, polisïau a rhaglenni'r UE rhag cael eu rhoi ar waith yn effeithiol a rhwystro'r Rwmaniaid a'r Bwlgariaid rhag manteisio ar eu hawliau llawn fel dinasyddion yr UE. Felly defnyddiodd y Comisiwn y rhwymedigaeth o fewn y Mecanwaith Cydweithredu a Dilysu i gynorthwyo'r gwaith o fynd i'r afael â'r diffygion hyn ac i ddilysu cynnydd yn erbyn meincnodau yn rheolaidd.

Rwmania, mae'r adroddiad yn nodi nad yw cyflymder y cynnydd wedi'i gynnal ac mae'n awgrymu bod awdurdodau Rwmania yn adennill y momentwm mewn perthynas â diwygio barnwrol a'r frwydr yn erbyn llygredd. Rhaid i Rwmania ddangos bod ganddi farnwriaeth sefydlog sy'n gweithredu'n annibynnol ac sy'n gallu rhoi llygredd ar brawf a'i gosbi a chynnal rheolaeth y gyfraith.

Bwlgaria, mae'r adroddiad yn nodi rhai o'r camau cychwynnol a gymerwyd mewn perthynas â diwygio strwythurol a deddfwriaethol o fewn y swyddfa erlyn, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Weinyddiaeth Fewnol. Mae angen cynnal y mesurau hyn a'u hymestyn ymhellach er mwyn darparu canlyniadau cadarn.

## Y Newyddion Diweddaraf ar y Cynllun Adfer Economaidd Ewropeaidd

Yn unol â'm cyflwyniad manwl yng nghyfarfod y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ym mis Ionawr, cyflwynwyd y Cynllun Adfer Economaidd Ewropeaidd ym mis Tachwedd 2008. Diffiniodd y fenter hon ddull cyffredin ar gyfer adfer hyder yn y diwydiant ariannol a diogelu twf economaidd. Mae dwy elfen ganolog i'r Cynllun: i) sbardun cyllidebol o €200 biliwn i roi hwb i'r galw a ii) rhaglen i gyfeirio camau gweithredu tuag at fuddsoddi craff, o gwmpas deg Cam Gweithredu ar gyfer Adfer. Mae'r deg cam wedi'u hamlinellu o dan bedwar maes blaenoriaeth Strategaeth Lisbon: pobl, busnes, seilwaith ac ynni, ymchwil ac arloesedd.

Mae Rhaglenni Sefydlogrwydd a Chydgyfeirio diwygiedig pob un o'r 27 Aelod-wladwriaeth yn cael eu hasesu ar hyn o bryd gan y Comisiwn Ewropeaidd, a chânt eu hadolygu gan y Cyngor Ewropeaidd maes o law. Eleni, bydd yr asesiad yn ystyried y ffordd y mae gwahanol Aelod-wladwriaethau wedi cynnwys amcanion a chanllawiau'r Cynllun Adfer yn eu rhaglenni, cynlluniau a strategaethau cyllidebol.

## Cronfeydd Strwythurol a'r Cynllun Adfer Economaidd Ewropeaidd

Fel rhan o Gynllun Adfer yr UE a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2008, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ar hyn o bryd yn ail-drafod y cyfraddau ymyrryd ar gyfer rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2007-2013 gyda'r Comisiwn Ewropeaidd. Y nod yw sicrhau cynnydd yng nghyfradd cyfraniad yr UE at flaenoriaethau perthnasol y rhaglenni gyda'r bwriad o fynd i'r afael â'r pwysau cyd-ariannu presennol.

Cyfarfu Dirprwy Brif Weinidog Cymru â'r Comisiwn ar 16 Chwefror ym Mrwsel ac mae'r arwyddion cynnar yn dangos y bydd y Comisiwn yn derbyn cynigion o'r fath. Mae'n derbyn na ellir fod wedi rhagweld y pwysau economaidd presennol adeg cytuno ar y rhaglenni yn 2007. Cynhaliodd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru drafodaethau cychwynnol gyda'r Comisiwn hefyd ar 27 Chwefror. Bydd angen cyflwyno unrhyw newidiadau y llwyddir i gytuno arnynt gyda'r Comisiwn i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan i gael ei gydsyniad ffurfiol yn unol â Rheoliadau'r UE.

Yn y cyfamser, mae'r Comisiwn wedi cymeradwyo ein cais i ymestyn rhaglenni Amcan 1, 2 a 3 2000-2006 tan ddiwedd mis Mehefin 2009. Defnyddir yr amser ychwanegol yn bennaf i sicrhau bod prosiectau sydd eisoes wedi'u cymeradwyo yn gallu manteisio i'r eithaf ar y gwariant y cytunwyd arno a chynorthwyo i gasglu'r dogfennau angenrheidiol ar gyfer cau'r rhaglenni.

## Bwrdd Sgorio'r Farchnad Fewnol

Cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd Bwrdd Sgorio'r Farchnad Fewnol ym mis Chwefror. Cyhoeddir y bwrdd sgorio ddwywaith y flwyddyn ac mae'n monitro perfformiad aelod-wladwriaethau'r UE o ran gweithredu cyfarwyddebau'r Farchnad Fewnol yn briodol ac amserol. Yng nghyd-destun yr argyfwng economaidd presennol mae'n hynod bwysig cael Marchnad Sengl gystadleuol sydd wedi'i rheoleiddio'n dda. Y bwrdd sgorio cyfredol yw'r un olaf a fydd yn mesur perfformiad trosi yn ôl y targed interim o 1.5%. Ym mis Mawrth 2007 pleidleisiodd y Cyngor Ewropeaidd i ostwng y targed diffyg i 1% o 2009 ymlaen.

Roedd y DU yn cyflawni'r targed 1% chwe mis yn ôl ond bellach mae'r diffyg wedi codi i 1.1% ar y Bwrdd Sgorio diweddaraf, gan fethu'r targed o un gyfarwyddeb; fodd bynnag gan mai hwn yw'r bwrdd sgorio olaf i fesur yn ôl y diffyg o 1.5% mae'r DU wedi bodloni'r targed trosi y tro hwn. Mae 17 o'r 27 o aelod-wladwriaethau wedi cyrraedd y targed o 1% ac mae 5 aelod-wladwriaeth yn dal yn uwch na'r targed o 1.5%: Cyprus, Gwlad Groeg, Portiwgal, Gwlad Pwyl a Lwcsembwrg.

Mae tîm Ysgrifenyddiaeth Polisi'r UE yn cysylltu ag adrannau polisi Llywodraeth y Cynulliad, adrannau Whitehall a Gweinyddiaethau Datganoledig eraill i gynorthwyo Llywodraeth y DU i fodloni'r targed o 1% ar y bwrdd sgorio nesaf.

## Gwobr RegioStars

Mae'r prosiect DIPLE (Digital, Industrial, Packaging, Lean, Environmental) ym Mhrifysgol Abertawe, sydd wedi'i ariannu gan raglen Amcan 1 2000-2006, wedi ennill gwobr o fri sef gwobr RegioStars 2009 y Comisiwn Ewropeaidd yn y categori ymchwil, datblygiad technolegol ac arloesedd. Cymru yw'r rhanbarth cyntaf erioed i ennill y wobr ddwywaith; mae'r wobr yn dilyn llwyddiant Technium OpTIC yn Llanelwy, a ariennir gan Amcan 1, a enillodd y wobr yn 2008 am ei waith ymchwil a datblygu arloesol yn y diwydiant Optoelectroneg.

## Materion Eraill

## Dydd Gŵyl Dewi 2009

Unwaith eto mae rhaglen o weithgareddau wedi'i threfnu ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi i hybu Cymru ledled y byd.

Fel arfer, mae swyddogion wedi bod yn gweithio **gyda Llysgenadaethau ac Uchel Gomisiynau'r DU** ledled y byd i annog a chefnogi cynrychiolwyr y Swyddfa Dramor a Chymanwlad i hyrwyddo Cymru adeg Dydd Gŵyl Dewi. Rwyf i wedi anfon fy **neges Dydd Gŵyl Dewi** blynyddol atynt.

Mae tudalennau Dydd Gŵyl Dewi **Wales.com** wedi'u llunio i annog unrhyw un sydd â diddordeb yng Nghymru, lle bynnag y maent yn y byd, i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, dysgu mwy am Gymru a rhannu eu diddordeb gydag eraill.

Bydd digwyddiadau Wythnos Cymru yn cael eu cynnal eto yn UDA, Brwsel, Chongqing a Llundain.

### UDA

**27 Chwefror - 6 Mawrth** - Gan adeiladu ar ei lwyddiant cynyddol yn Efrog Newydd, mae Wythnos Cymru UDA eleni yn ymestyn y tu hwnt i ddinas Efrog Newydd - i Boston, Washington, De Carolina a San Francisco. Bydd llawer o'r digwyddiadau yn hyrwyddo ymroddiad Cymru i gynaliadwyedd. Yn ddiweddar gwneuthum newid fy mwriad i ymweld â'r holl leoliadau ar Arfordir y Dwyrain, gan gyfyngu fy ymweliad i Washington yn unig - ar gyfer lansio Wales Smithsonian Cymru yn UDA a chyfarfodydd busnes. I gael rhagor o wybodaeth ewch i wales.com/walesweekusa

### Chongqing

**3-12 Mawrth 2009 -** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn trefnu 3ydd Wythnos Cymru yn Chongqing a fydd yn cynnwys cyfres o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â Chymru. Mae hyn yn dilyn Wythnosau Cymru llwyddiannus yn Chongqing yn 2007 a 2008 ac yn datblygu arnynt ymhellach. I gael rhagor o wybodaeth ewch i wales.com/chongqing

### Brwsel

Mae Wythnos Cymru ym Mrwsel bellach wedi ennill ei phlwyf hefyd. Eleni eto cynhaliais dderbyniad yn y Bibliothèque Solvay ar 26 Chwefror. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda'i phartneriaid ym Mrwsel a Chymru i drefnu cyfres o ddigwyddiadau sy'n dathlu Cymru adeg Dydd Gŵyl Dewi. I gael rhagor o wybodaeth ewch i wales.com/Brussels

Llundain

**9 Mawrth 2009 -** Digwyddiad Dydd Gŵyl Dewi ar gyfer y Corfflu Diplomyddol i barhau â'r drafodaeth gyda'r rhwydwaith dylanwadol hwn yn Llundain. Bydd hwn yn gyfle i amlygu manteision defnyddio Cymru fel gwersyll hyfforddi ar gyfer Gemau Olympaidd 2012 ac annog eu Pwyllgorau Olympaidd a Pharalympaidd Rhyngwladol i ymweld â Chymru i weld y cyfleusterau sydd ar gael.

**Y Gwir Anrhydeddus Rhodri Morgan AC**
Prif Weinidog Cymru

**EEAC FIRST MINISTER'S REPORT**

| Date | Assembly Minister/Official/ Division | Event | Objectives | Outcomes |
|---|---|---|---|---|
| 21/11/08 | First Minister | Visit of HE Derek Leask High Commissioner of New Zealand | First visit to Wales by the High Commissioner to explore areas of cooperation and best practice.<br>Visit included<br>• Attendance at Hybu Cig Cymru - Meat Promotion Wales<br>• Dinner hosted by Ifona Deeley<br>• Meeting with Health officials<br>• Meeting with Rural Affairs officials<br>• Attend the Wales v New Zealand Rugby match. | High Commissioner met First Minister.<br>Areas of possible cooperation identified as:<br>• Rural Affairs – Grassland research and biomass crops especially the production of red meats and subsequent production of methane in the context of greenhouse gas reduction.<br>• Public service reform- PSMW currently working with New Zealand on areas of best practice. PSMW and Permanent Secretary were originally due to visit New Zealand in February, this has been postponed until a later date<br>• Image creation/branding of small countries – the difficulties of producing a positive brand of a small country |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | • Extreme sports/activity tourism – both New Zealand and Wales had a lot to offer. |
| 24/11/08 | First Minister | HE Shiv Shankar Mukherjee High Commissioner of India | • Invitation from First Minister on HE's appointment, to visit Wales. | The High Commissioner met:<br>• The First Minister<br>• Brian Gibbons AM<br>He also visited companies and organisations with India/Wales links:<br>• Corus/Tata Steel<br>• University of Glamorgan<br>• Cardiff University<br>• IBW – re forthcoming trade mission.<br>Article on the visit appeared in India Digest. |
| 25/11/08 | First Minister, Minister for Heritage | Pierre Boulanger Quebec Agent-General, Canada | • Agent-General's first visit to Wales. | The Agent-General is to encourage the recently re-elected Premier to visit Wales. |
| 26/11/08 to 02/12/08 | First Minister | Latvian Photographic Exhibition | The exhibition was arranged by the Latvian Foreign Ministry to mark the 90$^{th}$ anniversary of Latvia's independence. The exhibition was brought to the Senedd to raise the profile of the relationship between Latvia and Wales. | Over 100 people attended the opening reception and the exhibition was displayed for 6 days in the publicly accessible areas of the Senedd for all visitors to enjoy. |
| 01/12/08 | First Minister | Lunch with HE Madam Fu Ying, Chinese | To provide an opportunity to discuss various issues with the Ambassador. | The First Minister was able to raise a number of issues relating to Wales' relationship with China. These |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Ambassador to the UK | | included the global economic climate and implications for trade/investment opportunities; possibility of establishing a Consulate in Wales; the potential for Wales being a base for the Chinese Olympic and Paralympic teams ahead of 2012 and the links between Wales and the Municipality of Chongqing. |
| 02/12/08 | First Minister/ Karen Gully DPHHP-HPG-Senior Medical Officer | Meet health officials from Chongqing in the Senedd | This was a courtesy meeting as part of a two day programme allowing the delegation an opportunity to learn about the Welsh National Health Service and in particular primary care delivery. | The delegates will use their experiences from the visit to contribute to the development of proposals for health services in Chongqing. |
| 08/12/08 to 11/12/08 | Minister for Environment, Sustainability and Housing | Climate Leader's Summit | Travel to Poland to attend "nrg4SD Steering Committee". | Minister spoke at Climate Group fringe meeting and at UN Development Programme Press conference. Agreed work programme for nrg4SD and Climate Group in preparation for the UN Climate Change Conference to be held in Dec 2009. |
| 10/12/08 | Minister for Heritage | Meet Kurdish Minister for Sport and Youth | Courtesy meeting while Minister Taha Barwary who was in Wales to attend the Sports Council for Wales Regional Sports Conference on the theme of The role of regions in building a legacy of sports participation and excellence. | Introductory meeting. The Kurdish Government have identified Wales as a model devolved nation with a strong and successful sporting culture. The conference was organised to consider how regions and small nations can develop, strengthen and |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | support sporting cultures both at grassroots and international level. |
| 21/01/09 | First Minister | New Year's reception at the European Commission, Cardiff, to mark the occasion of the Czech Presidency | The event was jointly hosted by the Czech Ambassador to the United Kingdom, HE Mr Jan Winkler and the head of the European Commission office in Cardiff, Mr Andy Klom to mark the start of the Czech Presidency. | The Ambassador met the First Minister and addressed the attendees on the subject of the Czech EU Presidency. The First Minister responded with remarks on the Czech Republic, the goals of the EU and the Czech EU Presidency and the work of the Assembly Government. |
| 22/01/09 | First Minister | Meet and have lunch with HE Mr Khalid Rashid Al-Hamoudi Al-Mansouri, Qatari Ambassador | To continue to build on the existing links between Wales/Qatar developed through the South Hook Terminal. | The Ambassador met the First Minister.<br><br>The Ambassador is keen to identify areas of cooperation between Wales and Qatar, particularly:<br>• Culture– Director to put forward areas of possible collaboration.<br>• Education<br>• Media<br>• Trade – IBW due to meet with Ambassador 13/2 for discussions.<br>• Wales 2012 – Ambassador and members of Olympic Committee to visit Wales in near future. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 22/01/09 | First Minister | Margaret Griffiths and Confidence Sofia | A courtesy call from a returned volunteer on the Wales for Africa International Learning Opportunities Scheme and Chair of the Tubah Women's network who hosted her time in Cameroon. | This was a courtesy call which included valuable feedback from Margaret Griffiths on her placement in Cameroon. |
| 26/01/09 | Deputy First Minister | 2nd Conference of Ministers of the 4 Motors & Associate Regions in Sitges, Barcelona | The purpose of the Conference was to:<br>• Appraise the regional co-operation of the Four Motors & Associate Regions in the field of productive economy;<br>• Debate the economic situation and the role of the 'Motors' in the construction of Europe and in enhancing SMEs to better face the present economic downturn and future challenge;<br>• Outline future common fields of actions of partner regions in business-related economic co-operation; and<br>• Sign a Joint 'Declaration of Sitges' of the Ministers Responsible for the Productive Economy of the 4 Motors for Europe & Associates. | The Conference resulted in the Economic Ministers of the 4 Motors +2 signing a new declaration of their intent to work together in identifying new opportunities to share best practice and to collaborate on projects of mutual economic benefit. The next step is the production of a 3 year action plan to identify joint actions and to guide future engagement and investment by the partners. This plan is to be developed by April 2009. |
| 28 /01/09 | Minister For Finance and Public Service Delivery | Meeting with Javier Solana & Catalan Delegation | This meeting was part of a formal visit by officials from the government of Catalonia which was hosted by the First Minister. The meeting was included as part of the itinerary to discuss social partnership.<br>This was an important opportunity to learn about the model of working with social partners in Catalonia. The Catalan region is | A press release was issued and an invitation extended for a potential follow up visit.<br>We have agreed to create a sustainable knowledge and learning exchange between officials of both Governments.<br>Following the invitation to visit the |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | a devolved region within the Spanish state and consequently is a valid comparator for Wales in developing a social partnership. | Catalan Government and meet with their social partners a business case is currently under construction. |
| 28/01/09 | First Minister & Minister for Heritage | Consular Corps in Wales | Annual reception for Consular Corps in Wales.<br><br>Theme for the event was Wales 2012. To promote Wales as a training camp for Olympic teams and enlist the support of the Consular Corps. | • Presentation by Wales 2012 Team<br>• Appearance of Paralympic Gold Medal winner at Beijing.<br>• All consuls given copy of Wales 2012 brochure to submit to their respective Embassies.<br>• Slovak Olympic Committee visiting March. |
| 28/01/09 to 29/01/09 | First Minister & Minister for Finance and Public Service Delivery | Visit by Head of Catalan delegation to the UK | To discuss areas for further co-operation between Catalonia and Wales. To make Ministers and officials aware of the presence of the Catalan Delegation based in London and the support it can offer in deepening ties between Wales and Catalonia. | Areas of further co-operation/ exchanges of information identified to help take forward the Memorandum of Understanding in; health, trade, culture, social partnerships.<br>The Delegation made contacts with the Wales Millennium Centre , the Welsh Language Board and Swansea University. |
| 03/02/09 | First Minister | The late HE Jan Winkler Ambassador for Czech Republic | Ambassador to address EEAC as Czech Republic holds Presidency of EU. | Ambassador met:<br>• First Minister<br>• Attended lunch hosted by Sandy Mewies AM, Chair of EEAC. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 03/02/09 | First Minister | Meeting with Ibrahim Peghouma, Cameroon Country Programme Director for VSO and Barbara Natasegara Chief Executive Safer Wales | To discuss the impact on both Cameroon and the 8 Welsh volunteers who each went for 8 week placements under the Wales for Africa International Learning Opportunities Scheme. | Mr Peghouma explained the pivotal role that the Welsh volunteers have had in VSOs work with local governments in Cameroon to make them more responsive to the needs of their citizens.<br><br>Ms Natasegara described her time in Cameroon as a uniquely beneficial and powerful learning experience. |
| 06/02/09 to 07/02/09 | Minister for Environment, Sustainability and Housing | Meeting with the Irish Minister for Environment, Heritage and Local Government, John Gormley | To meet in Wexford with Minister John Gormley to discuss Irish Environment policies including their experience of introducing a plastic bag levy. | Evidence gathering and information from the Irish experience of introducing a plastic bag levy. Also the development of contacts within the Irish Environment department and the exploration of wider policy issues such as on waste. |
| 11/02/09 | Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills | Teacher delegation from Africa | Short meeting and welcome to teachers from Nigeria and Zimbabwe visiting Wales as part of a British Council sponsored link with Caerphilly BC schools. | Courtesy call. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 12/02/09 | Minister for Finance and Public Service Delivery | Met with Latvian delegation to discuss vision of Welsh Public Services | PSMW have been approached by the President of the Association of Latvian Executive Directors to provide Leadership training for 12 Mayors and Executive Directors from different regions of Latvia. The programme will be one week long, 9 – 13 February 2009.<br><br>The objective of the programme is to expose the Latvian leaders to new ways of thinking and new ideas, giving them impetus to be creative and innovative in their own country at a time of change.<br><br>Origins of this programme are in connections made at last September's Union des Dirigeants Territoriaux de l'Europe (UDiTE) IX Biennial Congress 2008, which was held in Cardiff. | Andrew Davies, Minister for Finance and Public Service Delivery on the 12 February met the group of visiting Latvian executives taking part in a Welsh Assembly Government led Executive Leadership Programme.<br><br>A press release was issued |
| 13/02/09 | First Minister | Meet HE Ion Jinga, Ambassador for Romania | Following an invitation from Mr Clive Williams, Honorary Consul for Romania in Wales, Ambassador Jinga visited Wales for the first time since his appointment in March 2008 | Discussion on a wide range of EU issues |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 16/02/09 | Deputy First Minister | DFM visited Brussels to attend RegioStars 2009 Awards & meetings with European Commission Directorates. | DFM had a series of calls with senior Commission officials to discuss Convergence and Competitiveness Programmes and the economic situation.<br><br>DFM met with<br>• DG Research and Development,<br>• DG REGIO<br>• DG Employment<br>• UK Permanent Representative<br><br>Attend RegioStars Awards ceremony to collect award on behalf of Welsh Assembly Government for DIPLE project, winner of research, technological development and innovation category. | Winning the Regiostars Award twice has secured recognition across the EU of best practice and innovation in the use of the Structural Funds in Wales. |
| 19/02/09 to 20/02/09 | First Minister and Deputy First Minister<br><br>(Pre summit dinner on 19/02/09 attended by FM, DFM, Minister for Health & Social Services, Minister for Social Justice & Local | British Irish Council (BIC) Summit | The purpose of the BIC Summit was to:<br>• Discuss the Economy;<br>• Discuss social inclusion – role of the Third Sector in bringing about economic recovery;<br>• Review the BIC Work Programme covering housing, digital inclusion and collaborative spatial planning;<br>• Discuss the ongoing work of the Council, including the issue of minority languages. | Communiqué released. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Government and Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills. | | | |
| 27/02/09 | First Minister & Deputy First Minister | Joint Welsh Assembly Government / WRU / British Embassy Reception & France v Wales Six Nations Rugby International | The First Minister and the Deputy First Minister attended a joint Welsh Assembly Government / Welsh Rugby Union / British Embassy St David's Day event in the British Ambassador's Residence in Paris. This was followed by the France versus Wales match at the Stade de France and attended by both Ministers. The First Minister also held business meetings with the senior management of Cap Gemini and the CEO of Sodexo. | More than 100 guests attended including existing and potential inward investors. The primary purpose of the event is to target and develop Franco-Welsh ties (in particular business, investment and trading links) using sport and the media and Welsh produce as the backdrop. |
| 01/03/09 to 02/03/09 | Minister for Environment, Sustainability and Housing | Environment Council Meeting | The Minister is involved as part of the UK delegation in a Council of Environment Ministers meeting, which plans to adopt EU position on a comprehensive post 2012 climate agreement and an exchange of views on industrial emissions legislation. | None available at time of preparation |
| 09/03/09 | First Minister | Diplomatic Corps | Annual St David's Day reception hosted by First Minister at the House of Commons. Invitations to selected members of the Diplomatic Corps, Welsh MP's, sport organisations and the Assembly Government. | None available at time of preparation |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Theme for this year is Wales 2012, to encourage targeted countries to use Wales as training camp for Olympics. | |